**EOC-01-00(p.2)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad: 3 Chwefror 2000**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl:** Adroddiad y Tasglu ar Hawliau’r Anabl

**Diben**

Ystyried Adroddiad y Tasglu ar Hawliau’r Anabl a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 1999.

**Argymhelliad**

Gwahoddir aelodau’r Pwyllgor i nodi cynnwys yr Adroddiad. Mae’r Prif Ysgrifennydd wedi gwahodd y Pwyllgor i gymryd yr awenau o ran monitro ei weithrediad.

**Cefndir**

Sefydlwyd y Tasglu ar Hawliau’r Anabl yn Rhagfyr 1997 er mwyn ystyried y dull gorau o sicrhau bod gan bobl anabl hawliau sifil cynhwysfawr o fewn cyd-destun y gymdeithas ehangach ac i wneud argymhellion ar rôl a swyddogaeth y Comisiwn ar Hawliau’r Anabl. Cyhoeddwyd ei Adroddiad ar rôl a swyddogaeth y Comisiwn ar Hawliau’r Anabl ym 1998, a bwriwyd ymlaen â hyn drwy gyfrwng deddfwriaeth a bydd y Comisiwn ar Hawliau’r Anabl yn cael ei sefydlu yn Ebrill 2000.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar y materion ehangach sy’n dwyn y teitl "From Exclusion to Inclusion" ar 13 Rhagfyr 1999. Ceir copi o’r adroddiad ar y Rhyngrwyd – ar wefan y DfEE – www.disability.gov.uk. Mae rhestr o’r argymhellion yn Atodiad E – tudalennau 231-258. Ceir rhestr hefyd o’r argymhellion deddfwriaethol yn yr atodiad i’r papur hwn.

Mae’r Adroddiad yn un cynhwysfawr ac mae’n bwrw golwg ar ystod eang o faterion sy’n effeithio ar fywydau pobl anabl: diffinio anabledd; addysg; cyflogaeth; mynediad i nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau; teithio; yr amgylchedd a thai; cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus; a llywodraeth leol; iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae’r cyfrifoldeb am rai o’r meysydd hyn, ond nid pob un ohonynt, wedi’i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff hyn ei gydnabod ym mharagraff 19 ar dudalen 10 o’r cyflwyniad i’r Adroddiad, sy’n nodi’n glir mai’r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am ystyried a bwrw ymlaen ag argymhellion yr Adroddiad o ran y cyfrifoldebau datganoledig.

**Cydymffurfio**

Cyflwynir yr Adroddiad hwn i’r Pwyllgor er gwybodaeth a thrafodaeth. Nid oes unrhyw faterion sy’n ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â’r Adroddiad, yn arbennig ym maes addysg. Cyfrifoldeb Adrannau perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol fydd eu mesur.

**Gweithredu**

Gwahoddir yr aelodau i nodi argymhellion yr Adroddiad ac i nodi bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gyfrifol am fonitro ei weithrediad yng Nghymru. Mae’r Uned Polisi Cyfartal wedi cysylltu ag Adrannau yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda’r bwriad o ymateb i’r Adroddiad a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i’r Pwyllgor ym mhen tair blynedd.

**Man Cyswllt:** Jenny McKinlay – PEP – Uned Polisi Cyfartal

**Annex A**

**Argymhellion Allweddol drafft y DRTF: Crynodeb**

**A) Ehangu cwmpas y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn sylweddol**

<u>Ysgolion</u>

- Dyletswydd newydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i gynllunio’n strategol ac i wneud cynnydd o ran cynyddu gallu disgyblion anabl i gael mynediad i adeiladau ysgol a’r cwricwlwm.
- Hawl cryfach i rieni a phlant sydd â datganiadau o anghenion addysg arbennig i gael lle mewn ysgol yn y brif ffrwd.
- Hawl newydd i atal ysgolion ac AALlau rhag gwahaniaethu yn annheg yn erbyn disgyblion anabl.
- Ysgolion i wneud newidiadau rhesymol i’w polisïau, arferion, a gweithdrefnau lle maent yn creu anfantais i blant anabl.

Addysg Bellach, Addysg Uwch ac Addysg i Oedolion sy'n dod o dan yr AALlau

- Cynnwys Adran ar wahân ar gyfer Addysg Bellach, Addysg Uwch ac Addysg Oedolion sy'n dod o dan yr AALlau yn neddfwriaeth y dyfodol er mwyn sicrhau hawliau cynhwysfawr y gellir eu gorfodi ar gyfer pobl anabl; dylai bod hawliau tebyg hefyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Ieuenctid.

- Bod gan y ddeddfwriaeth God Ymarfer statudol cysylltiedig, yn esbonio'r hawliau newydd.

Trafnidiaeth

- Dylid tynnu'r esemptiad ar gyfer cwmnïau cludiant o gam cyntaf a cham Hydref 1999 o'r dyletswyddau mynediad i wasanaeth o ddeddfwriaeth hawliau sifil.

- Dylid cyflwyno 'dyddiad gorffen' ar gyfer pryd y dylai pob cerbyd rheilffordd sy'n cludo teithwyr gydymffurfio â'r rheoliadau mynediad yn dilyn ymgynghori. Dylid datblygu rheoliadau mynediad fel eu bod yn gymwys i gerbydau rheilffyrdd presennol sy'n cael eu hadnewyddu.

Cyflogaeth

- Dylid ymestyn darpariaethau cyflogaeth deddfwriaeth hawliau sifil i gynnwys pob cyflogwr, ac eithrio cartrefi preifat, waeth beth fo'u maint.
- Dylid rhoi diwedd ar eithrio neu beidio â chynnwys yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth tân; y lluoedd arfog; partneriaethau; cyrff cymhwyso a bargyfreithwyr ac eiriolwyr yn narpariaethau cyflogaeth y DDA, mewn deddfwriaeth hawliau sifil.

**B) Mireinio Manylion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd**

Tai

- Ni ddylid caniatáu i landlord wrthod yn afresymol rhoi caniatâd i berson anabl sy'n ceisio gwneud newidiadau i arweddion ffisegol ei eiddo, er na ddylai'r landlord orfod talu amdanynt. Dylid mynd ati i ymgynghori'n bellach ar y cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r landlord a'r person anabl.

Diffinio Anabledd

- Dylid ymestyn diffiniad y DDA o anabledd i gynnwys pobl â HIV o ganlyniad i ddiagnosis a chanser o'r cyfnod pan eu bod yn effeithio'n sylweddol ar eu bywydau.

- Dylai’r Llywodraeth wella ac egluro’r canllawiau statudol ar ddiffinio anabledd.

Dethol ar gyfer Swyddi

- Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y dylid caniatáu cwestiynau ar anabledd neu ar faterion sy’n ymwneud ag anabledd cyn cynnig swydd.

**C) Defnyddio Mesurau Anneddfwriaethol**

- Dylid cyflwyno Cod Arfer Da ar gyfer gwaith gwirfoddol a dylid bod per i gynnwys gwirfoddolwyr o fewn deddfwriaeth hawliau sifil os oes angen.

- Dylid bwrw ymlaen ymhellach i sicrhau cydymffurfiaeth â’r canllawiau ar fynediad i’r anabl ym myd llongau a dylid datblygu Cod Ymarfer newydd ar fynediad i bobl anabl ym maes teithio mewn awyrennau.

- Dylai’r DRC weithio gyda’r Adran Fasnach a Diwydiant, sefydliadau’r anabl ac eiriolwyr yn y sector preifat i hybu manteision cynnyrch ‘sydd wedi’u cynllunio i bawb’ ac annog cynhyrchwyr i gyflenwi gwybodaeth i fynd gyda’u nwyddau a hynny mewn fformat hygyrch. Yn ogystal ag ymagweddau arfer da, dylai’r Llywodraeth archwilio beth arall ellid ei wneud o fewn cyd-destun y DDA a deddfwriaeth Ewropeaidd i wneud cynnyrch yn fwy hygyrch i bobl anabl, yn arbennig o safbwynt darparu’r wybodaeth sy’n cyd-fynd â nwyddau a gynhyrchir a hynny mewn diwyg hygyrch.

**D) Arweiniad y Sector Cyhoeddus o ran Hybu Cyfle Cyfartal**

- Dylai bod gan y sector cyhoeddus ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl. Dylai bod trafodaeth bellach ar fanylion y dyletswydd hwn, sy’n cydnabod amrywiaeth sefydliadau’r sector cyhoeddus. Dylai llunio cynlluniau gweithredu fod yn elfen o’r dyletswydd hwn. Dylid defnyddio grym prynu y sector cyhoeddus i hybu cydymffurfio ymysg contractwyr a chwmnïau sy’n cyflenwi’r sector cyhoeddus.
- Dylai darpariaethau mynediad i wasanaethau deddfwriaeth hawliau sifil ymestyn i gynnwys holl swyddogaethau awdurdodau iechyd, gan ystyried ymhellach goblygiadau’r dyletswydd i wneud newidiadau rhesymol mewn perthynas ag estyniad o’r fath.

Llywodraeth Leol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

- Fel rhan o ‘Gwerth Gorau’, dylid mesur llywodraeth leol gyda dangosydd perfformiad penodol ar gyfer cydraddoldeb ym maes anabledd.

- Dylai’r Adran Iechyd arwain y ffordd o safbwynt herio ymagweddau tuag at bobl anabl

sy'n arwain at wahaniaethu mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Dylai ymgynghori â'r DRC, sefydliadau anabledd a'r proffesiwn iechyd ar ganllawiau i sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn meysydd megis mynediad i driniaeth yn gyson ac nad ydynt yn cael eu dylanwadu gan gasgliadau amhriodol am 'ansawdd byw' person anabl.

- Dylai'r Adran Iechyd sicrhau bod pob agwedd o'i agenda ar gyfer gwella iechyd yn rhoi sylw teilwng i faterion sy'n ymwneud â hawliau'r anabl. Dylai ystyried mabwysiadu isafswm safonau cenedlaethol er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer pobl anabl o ran darparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

- Dylid mynd i'r afael â rhwystrau i weithio ar y cyd o safbwynt darparu gwasanaethau a chymorth i bobl anabl. Dylid rhoi sylw arbennig i bwyntiau trosiannol er enghraifft pan fo rhywun yn symud o addysg i waith.

## E) Gwaith Pellach

Diffinio Anabledd

- Dylai'r Llywodraeth adolygu ac ymgynghori ar agweddau gwahanol o ddiffiniad y DDA o anabledd gyda'r bwriad o roi sylw priodol a chynhwysfawr i gyflyrau iechyd meddwl.

- Dylai'r Llywodraeth ystyried a ddylid ei ymestyn i gynnwys y sawl sydd â chyflyrau difrifol lle nad ydynt yn dymor hir, fel sy'n gallu digwydd gyda rhai achosion o drawiad ar y galon, strôc neu iselder ysbryd. Bydd angen astudio hefyd oblygiadau ehangach y cynnig hwn er mwyn osgoi cynnwys cyflyrau nad ydynt yn rhai tymor hir neu sy'n rhai y gellir eu gwella'n rhwydd, megis coesau wedi'u torri, lle nad yw'r posibilrwydd y gallant ddigwydd eto yn cynyddu'n sylweddol am eu bod wedi digwydd unwaith.

- Nid yw'r argymhellion ar gyfer gwella diffiniad y DDA o anabledd yn ateb terfynol. Dylai'r DRC a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon fonitro'r diffiniad a'i adolygu er mwyn gweld lle y gellid gwneud gwelliannau pellach.

Nwyddau a Gwasanaethau

- Yr ydym yn cydnabod bod lle posibl i fod yn bryderus, o dan Adran III o'r DDA: gyda'r cyfiawnhad y gall darparwyr gwasanaeth ei ddefnyddio ar gyfer triniaeth lai ffafriol; y pwynt y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried gwneud newidiadau rhesymol; ac a oes angen i ddarpariaeth y DDA fynd ymhellach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn lleoliad integredig. Dylai'r DRC adolygu'r rhain yn gyson. Dylai unrhyw newid a wneir yn y dyfodol ddatgan yr hawliau a'r dyletswyddau yn glir.

Trafnidiaeth a’r Amgylchedd

- Dylai’r DRC weithio gyda’r Pwyllgor Ymgynghorol ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl er mwyn ystyried dulliau o gynyddu’r cyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio cerbydau llog preifat, gan gynnwys cludo cn cofrestredig sy’n eu cynorthwyo.

- Dylai’r DETR gynnal ymchwil pellach i effeithiolrwydd a gorfodaeth Rhan M o’r Rheoliadau Adeiladu a chynnal adolygiad ehangach o Ran M, gan gynnwys penderfynu a ydyw’n cael ei ddehongli’n gyson a’r cyfle sy’n bodoli i gymhwyso’r Rhan at adeiladau presennol.

- Dylai’r DETR gomisiynu’r gwariant o baratoi canllawiau ar arweiniad da ar gynllunio a mynediad fel rhan o’i Raglen Ymchwil ar Gynllunio yn 2000/01. Dylai’r ddogfen arfaethedig edrych ar arfer da mewn perthynas â pholisïau’r cynllun datblygu ac agweddau cynllunio a mynediad i fathau gwahanol o amgylchedd.